PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD

DYDD IAU, 2 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd De'Ath(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bridges, Goodway, Gordon, Hinchey, Knight, Magill, Patel, Walker a/ac Woodman |

14 : YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

15 : CROESO AC AELODAETH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bridges i gyfarfod y Pwyllgor y Cyfansoddiad ers iddo gael ei benodi i gymryd lle'r Cynghorydd Margaret Jones a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Ionawr 2017.

16 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

17 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

18 : ADOLYGIAD O REOLAU GWEITHDREFN CYFARFODYDD Y CYNGOR

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod diben yr adroddiad oedd rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor i ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Gweithdrefn Cyfarfodydd y Cyngor a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2017.

Yn ei gyfarfod diwethaf, ym mis Tachwedd 2016, ystyriodd y Pwyllgor y Cyfansoddiad ddewisiadau ar gyfer newid agweddau amrywiol ar Reolau Gweithdrefn Cyfarfodydd y Cyngor, yng ngoleuni canlyniadau'r Arolwg i Aelodau a thrafodaethau gydag Arweinwyr Grwpiau Plaid a Chwipiau.

Ystyriodd Aelodau'r holl newidiadau arfaethedig fel y nodir yn Atodlen 1 yr adroddiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar bob un o'r newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

- Amlder Cyfarfodydd:
- - Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o ganslo'r cyfarfod ym mis Gorffennaf gan fod hyn yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Nododd yr Aelodau y gallai fwy o fusnes yn cael ei wneud yn ystod misoedd eraill.
- Cyfyngiadau Amser ar Gyfarfodydd y Cyngor – Trafododd yr Aelodau hyd cyfarfodydd a phennu cyfyngiad ar amser gorffen sef 9pm gydag egwyl wedi'i drefnu am 7pm ar gyfer y Cyngor Llawn. Cytunodd yr Aelodau y byddai hyn yn cefnogi unrhyw faterion cydraddoldeb eraill ar gyfer Aelodau sydd â

chyfrifoldebau gofalu neu sydd wedi gweithio trwy'r dydd. Fodd bynnag cytunwyd bod angen i gyfarfodydd gael eu strwythuro'n well a bod angen amseru mwy caeth ar eitemau.

- Cwestiynau ar Lafar – cytunodd nifer o Aelodau gyda lleihau nifer y cwestiynau ar lafar ond dim ond os oes mwy o amser i ofyn cwestiynau ysgrifenedig, gan gynnwys cwestiynau ysgrifenedig yn y cyfarfodydd ar y Gyllideb a chyfarfodydd Blynyddol y Cyngor.
- Esboniodd y Swyddog Monitro na chaniateir cwestiynau ysgrifenedig yng nghyfarfod y Cyngor ar y gyllideb oherwydd materion capasiti ar gyfer Aelodau'r Cabinet a swyddogion yn ystod y cyfnod cyn cyfarfod pwysig.
  Teimlodd yr Aelodau, ar gyfer Aelodau mainc ôl, mai'r Cyngor Llawn oedd yr unig Fforwm y gellir gofyn cwestiynau yn ymwneud ag Wardiau ac roeddent yn amharod i gyfaddawdu ar hyn gyda'r cyflwyniad o ofyniad bod yn rhaid i gwestiynau fod ar y gyllideb neu bolisi, ac ni ddylent fod yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar un ward yn unig.

  Trafododd yr Aelodau leihau nifer y cwestiynau ar lafar i ugain; credodd yr Aelodau, petai hyn yn digwydd yna dylid caniatáu cwestiynau yn ymwneud ag wardiau; tanlinellodd nifer o'r Aelodau pwysigrwydd cwestiynau ar lafar i Aelodau mainc ôl ac na ddylent gael eu lleihau.

  Awgrymodd yr Aelodau hefyd y dylid defnyddio cwestiynau ysgrifenedig ar gyfer materion yn ymwneud ag wardiau ac os na chânt eu datrys yna dim ond wedyn y gellir gofyn cwestiwn am y mater ar lafar.

  Credodd yr Aelodau y dylai cwestiynau ar lafar fod yn gyfatebol ac y dylid diystyru Aelodau Cabinet o'r cyfrifiad.

- Amseru ar gyfer Siaradwyr mewn dadl – Trafododd yr Aelodau y lleihad arfaethedig mewn amser siarad o 6 munud i 4 munud ar gyfer cynigwyr cynigion ac o 3 munud i 2 funud i siaradwyr cyffredinol.
- Credodd y Pwyllgor y byddai 2 funud yn gyfyngol iawn a phetai'n cael ei weithredu yna dylid darparu hyfforddiant priodol.
- Trafododd yr Aelodau y rhybudd tri deg eiliad a roddir gan yr Arglwydd Faer i ddechrau dod i ben a chredodd fod hyn yn tarfu'n fawr ar y cadwyn meddwl; credodd y gallai fod system olau oren/coch yn lle pan gaiff y golau oren ei ddangos i roi gwybod bod tri deg eiliad ar ôl ac y caiff y microffon ei ddiffodd pan gaiff y golau ei newid i goch.

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ar a yw'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer gweinyddiaeth newydd ac esboniodd y Swyddog Monitro, pe bai'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth, y gellid gweithredu'r rhain o fis Mai 2017 ac y gellid eu cynnwys yng nghynllun sefydlu'r Aelodau; neu gallai'r Pwyllgor wneud argymhellion i weinyddiaeth newydd y Cyngor i'w hystyried yn rhan o gyfarfod blynyddol y Cyngor.

- Credodd nifer o'r Aelodau y dylid treialu unrhyw newidiadau am flwyddyn a'u hadolygu wedyn.

Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyngor trafododd y Pwyllgor Rheol Gweithdrefn 26 y Cyngor (c) mewn perthynas â dod â cynigion i ben. Darllenodd y Swyddog Monitro y

rheol gyfredol o Reolau Gweithdrefn y Cyngor. Credodd yr Aelodau fod angen i'r rheol gael ei newid i alluogi'r pleidlais ar y diwygiadau, gan fod diwygiadau'n methu yn ei ffurf cyfredol. Nodwyd bod y rheolau cyfredol yn rhoi disgresiwn i'r Cadeirydd i benderfynu a yw eitem wedi'i thrafod yn ddigonol a allai fod yn anodd. Teimlwyd, pe na bai'r newid arfaethedig yn cael ei dderbyn, y dylai fod rhybudd o leiaf am yr hyn a fyddai'n digwydd pe tai cynnig dod i ben yn cael ei symud. Pwysleisiodd y Swyddog Monitro bwysigrwydd dilyn y rheolau i osgoi penderfyniadau bod yn agored i heriau.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

(1) argymell i'r weinyddiaeth nesaf y newidiadau arfaethedig canlynol i Reolau Gweithdrefn y Cyngor:

- (i) lleihau nifer nifer cyfarfodydd y Cyngor gan un trwy ganslo cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.
- (ii) cytuno ar gyfyngiad ar y amser gorffen sef 9.00pm ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor gydag egwyl 30 munud a bod busnes sy'n weddill yn mynd i bleidlais heb ddadlau ac yn achos cwestiynau ar Lafar, derbyn ymatebion ysgrifenedig;
- (iii) cytuno i leihau nifer y cwestiynau ar lafar o 30 i 20 ac i'r rheiny gael eu dyrannu; 2 gwestiwn fesul Grŵp; 1 fesul Aelod Annibynnol a'r gweddill yn cael eu dyrannu'n gyfatebol gan ddileu'r Aelodau Cabinet o'r cyfrifiad hwn;
- (iv) dileu'r ail gwestiwn ategol o berson heblaw am y person sy'n gofyn y cwestiwn;
- (v) Nifer y Hysbysiadau o Gynnig i gael eu lleihau i 2 fesul cyfarfod ac eithrio cyfarfod blynyddol y Cyngor a chyfarfod y Cyngor ar y gyllideb ac i'r rhain gael eu dosbarthu ar sail cyfatebol;
- (vi) Amser siarad ar gyfer cynigiwr cynnig ac adroddiad i gael ei leihau i 4 munud; siaradwyr cyffredinol i barhau i gael 3 munud;

(2) nodi materion wedi'u hamlygu yn yr Arolwg i Aelodau a nodir ym mharagraff 5 yr adroddiad; a

(3) argymell i'r Cyngor Llawn ar 23 Mawrth 2017 y newid canlynol i reol gweithdrefn 26 y Cyngor (c) i fod yn weithredol o gyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2017:

**26 CYNNIG DOD I BEN**

(c) Os caiff cynnig bod cwestiwn bellach yn cael ei ofyn ei eilio a bod y Cadeirydd yn credu bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd y Cadeirydd yn rhoi'r cynnig dod i ben i bleidlais. *Os cytunir arno bydd y Cadeirydd, os oes unrhyw ddigwyddiadau, yn rhoi'r digwyddiadau i'r pleidlais cyn rhoi'r hawl i symudwr y cynnig gwreiddiol i ymateb cyn rhoi ei gynnig i bleidlais.*

19 : DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU – DARPARIAETHAU CYFANSODDIAD

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, yn Adroddiad Dilynol Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016, mai un o'r cynigion ar gyfer gwelliant oedd argymhelliad y dylid cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu a

dysgu Aelodau i alluogi Aelodau i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol (Cynnig SAC ar gyfer Gwella P5).
Mewn ymateb i Adroddiad Dilynol SAC, nododd y Cabinet (ar 21 Mawrth 2016) fod angen i Aelodau pwyllgorau sy'n cyflawni rôl led-farnwrol yng Nghaerdydd, sef, Amddiffyn y Cyhoedd; Pwyllgorau Trwyddedu a Chynllunio, fel mater o arfer, ddilyn hyfforddiant cyn iddynt allu cymryd rhan yn y pwyllgorau hyn. Cytunodd y Cabinet y gofynnir i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd adolygu trefniadau'r Cyngor, nodi gofynion hyfforddiant hanfodol ar gyfer Aelodau a chytuno y bydd rhaglen ddatblygu a hyfforddiant i aelodau newydd ddechrau ym mis Mai 2017.

Nododd Aelodau fod y cyfansoddiad ar hyn o bryd yn ei wneud yn glir y disgwylir i Aelodau ddilyn y hyfforddiant priodol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad penodol at hyfforddiant hanfodol, er mai'r arfer a dderbynnir gan y Cyngor yw bod yn rhaid i Aelodau cyrff lled-farnwrol ddilyn hyfforddiant cyn iddynt sefyll ar y pwyllgorau hynny.

Dywedodd y Swyddog Monitro y gallai Caerdydd fynd un cam ymhellach ac estyn yr arfer cyfredol hwn i bwyllgorau eraill megis y Pwyllgor Pensiynau a'r Pwyllgor Archwilio.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Nododd yr Aelodau y cyfrifoldeb cyfreithiol i bwyllgorau lled-farnwrol gael hyfforddiant a chredon nhw, pan fo cyfrifoldebau cyfreithiol ar bwyllgorau eraill megis Rhianta Corfforaethol, dylai hyfforddiant fod yn orfodol.

- Trafododd yr Aelodau bresenoldeb cyffredinol mewn cyfarfodydd a hyfforddiant a nodon nhw fod nifer o Aelodau yn mynychu cyfarfod y Cyngor Llawn yn unig ac yn gallu cynnal presenoldeb 100% felly; Credodd aelodau y dylai fod disgwyliad sylfaenol o nifer yr Aelodau pwyllgor a ddylai fynychu a dylid pennu eu presenoldeb yn erbyn hynny; ar ôl rhywfaint o drafod credodd yr Aelodau y dylid disgwyl qi'r Aelodau sefyll ar un pwyllgor o leiaf heblaw am y Cyngor Llawn.

- Gan gyfeirio at hyfforddiant, credodd yr Aelodau y dylai fod hyfforddiant gorfodol megis Iechyd a Diogelwch, Amddiffyniad Personol a Diogelu Corfforaethol gan fod Aelodau ar eu pen eu hunain gyda phobl sy'n agored i niwed.

- Esboniodd y Swyddog Monitro y byddai gwneud hyfforddiant o'r fath yn orfodol yn golygu ei gynnwys yn y cyfansoddiad; byddai angen cynnwys unrhyw fathau eraill o hyfforddiant megis diogelu data ac ati yn Ymrwymiad Caerdydd.
- Esboniodd y Swyddog Monitro hefyd i Aelodau allu sefyll ar bwyllgor heblaw am y Cyngor Llawn, y dylent fynd i gyfarfodydd grŵp/Chwip i ystyried.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

(1) yn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad;

(2) cytuno'r diwygiadau Cyfansoddiad arfaethedig i gylch gorchwyl y Pwyllgor i gynnwys hyfforddiant hanfodol ar gyfer pwyllgorau gyda chyfrifoldebau cyfreithiol;

(3) cytuno rhoi gwybodaeth i Grwpiau Plaid a Chwipiau fod angen i Aelodai sefyll ar un Pwyllgor o leiaf heblaw am y Cyngor Llawn;

(4) cyfarwyddo’r Swyddog Monitro i ddrafftio’r diwygiadau arfaethedig i’r Cyfansoddiad i’r Cyngor llawn eu cymeradwyo ym mis Mawrth.

20 : ADOLYGIAD O STRWYTHUR Y PWYLLGOR CRAFFU

Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau y byddai’r adroddiad yn eu galluogi i ystyried a gwneud argymhellion i gyfarfod y Cyngor Llawn yn y dyfodol a’r swydd weinyddiaeth newydd ym mis Mai 2017, ar ddewis fodel ar gyfer trefniadau Craffu (atodwyd pedwar dewis posibl i’r adroddiad) a fydd yn helpu’r Cyngor i rhoi craffu effeithiol, perthnasol yn y ffordd orau i:

- Bodloni anghenion y weinyddiaeth yn y dyfodol ac aelodaeth ehangach y Cyngor;
- Ystyried ystod o newidiadau diweddar, cyfredol ac wedi trefnu i ddeddfwriaeth, polisi a gwasanaeth;
- Gwneud y defnydd gorau ar adnoddau Aelodau a swyddogion;
- Darparu atebion polisi ar sail tystiolaeth a fydd yn cefnogi llywodraethu a gwella'r Cyngor; a
- Helpu craffu i gyflawni ei rôl cyfaill beirniadol, gan hyrwyddo buddiannau dinasyddion.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau hefyd fod model Caerdydd yn debyg i fodelau llawer o gynghorau eraill yng Nghymru. Mae gan nifer o’r rhain bum pwyllgor, mae gan nifer ohonynt bedwar pwyllgor ac mae gan nifer ohonynt dri phwyllgor. Roedd cydbwysedd cyfartal rhwng trefniant gan gyfarwyddiaeth, gan bortffolio a fel hybrid o’r ddau.

Nododd yr Aelodau fod yr Adolygiad wedi’i yrru gan nifer o ffactorau mewnol ac allanol. Y prif rai ymhlith y rhain oedd:

- Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Chwefror 2016 fod Caerdydd:

    i. Yn datblygu agwedd at graffu croes-dorri (o ystyried natur cynyddol gwasanaeth a llywodraethu cydweithredol, ac agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol); a

    ii. Ystyried rôl craffu o ran mynd i’r afael â heriau strategol sy’n wynebu’r cyngor ar yr adeg hwn.

- Newidiadau i drefniadau gwasanaeth y Cyngor megis Cabinet Rhanbarthol y Fargen Ddinesig, y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a modelau gwasanaethau amgen eraill.

- Pwysau parhaol ar y gyllideb a gallu Aelodau a swyddogion.

O ystyried ymgynghoriad ar Adolygiad Craffu, mae Aelodau ac uwch reolwyr wedi bod yn rhan o’r holl broses; mae trafodaethau wedi bod gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Gwasanaeth Tân ac Achub De

Cymru, Heddlu De Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru. Yn ôl adborth cychwynnol, byddai'r Cyngor Trydydd Sector yn croesawu rhan fwy yn y broses craffu, a theimlodd fod mwy gan y sector i'w gynnig o ran cysylltu'r Cyngor â'r ddinasyddion. Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru wedi pwyntio i'r gwerth a ddarparwyd gan graffu o ran sicrhau goruchwyliaeth ddemocratig o drosedd ac anhrefn, ac o gefnogi gweithgarwch partneriaeth. Yn ogystal, rhodd Paul Keeping wybod i Aelodau fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru yn credu bod angen cael adnoddau iawn ar gyfer craffu'r PSV a'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn, cefnogon nhw hefyd gyd-ddewis ar bwyllgorau; credodd Heddlu De Cymru y dylid osgoi dyblu ac y dylid cydweithio'n fwy mewn perthynas â Throsedd ac Anhrefn gan ei wneud yn fwy cyfannol ar draws pwyllgorau a gwasanaethau'r Cyngor; cefnogodd y Trydydd Sector fwy o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen gan eu bod yn credu bod y rhain yn fwy cynhyrchiol.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau;

- Credodd Aelodau fod angen i'r weinyddiaeth newydd ystyried manylion y trefniadau newydd, ond gallen nhw weld bod lleihau nifer y pwyllgorau i bedwar yn gwneud synnwyr.

- Nododd Aelodau y gellid dadansoddi effaith yn well gyda phartneriaeth yn y broses craffu ac y gellir arddangos a thystio'r canlyniadau ar gyfer dinasyddion Caerdydd.

- Ystyriodd Aelodau'r aelodau nad ydynt yn gynghorwyr neu swyddogion a theimlodd nifer o Aelodau, gan nad yw cod ymddygiad y Cyngor yn rhwymo'r aelodau hynny a chan nad oes ganddynt sancsiynau posibl felly, na ddylent gael yr un dylanwad ar bwyllgorau craffu ag Aelodau etholedig.

- Credodd Aelodau hefyd y gellid eu galw yn arbenigwyr wedi Gwahodd yn lle aelodau nad ydynt yn gynghorwyr neu swyddogion ac y dylid dilyn y broses Nolan ac y dylid hysbysebu'r swyddi'n gyhoeddus.
- Trafododd Aelodau Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a daethon nhw i'r casgliad y gallai tystion allanol gymryd rhan fwy yn y rhain gan eu bod yn gweld gwerth go iawn yn y gwaith a wneir gan y grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

- Nododd Aelodau fod diffyg presenoldeb mewn pwyllgorau craffu a chredon nhw y gallai fod cydberthynas rhwng hyn a'r diffyg effaith pwyllgorau craffu; credodd Aelodau wrth symud ymlaen y gallai Craffu gael rhan ynghynt yn y gwaith o siapio Polisi'r Cyngor.

PENDERFYNWYD – y byddai'r Pwyllgor yn

1. argymell 4 model Craffu dewis y Pwyllgor Craffu i'r Cyngor Llawn a'r weinyddiaeth newydd ôl Mai 2017 eu hystyried.

2. cytuno y bydd gan bwyllgorau craffu, yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor, naw Aelod etholedig;

3. cytuno y caiff yr holl Aelodau etholedig Anweithredol eu hannog i gymryd rhan yn nghyfarfodydd Craffu, fel aelodau pwyllgor a / neu fel aelodau ymholiadau gorchwyl a gorffen.

4. Naw ddylai nifer mwyaf yr Aelodau i fod yn rhan o ymholiad gorchwyl a gorffen fod.
5. sicrhau bod partneriaid a dinasyddion yn rhan o weithgarwch craffu trwy annog cyfranogiad allanol mewn cyfarfodydd craffu ffurfiol a gweithgarwch gorchwyl a gorffen.